
# Stori'r Geni



Stori Iesu

# Stori'r Geni

## Stori Iesu



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd Mair, mam Iesu, wedi'i dyweddïo i Joseff, oedd yn saer.
- Mae haneswyr yn cytuno fod Iesu wedi'i eni ym Methlehem yn ystod teyrnasiad Cesar Awgwstws.
- Cafodd Iesu ei eni pan oedd Herod Fawr yn rheoli Jwdea. Pan glywodd Herod am eni Iesu teimlai dan fygythiad a gwnaeth ei orau i ladd Iesu drwy orchymyn lladd pob bachgen bach dan ddwyflwydd oed.
- Er nad yw'r Beibl yn sôn am anifeiliaid yn hanes geni Iesu mae Luc yn dweud fod Iesu wedi'i roi "i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid." Mae hyn yn awgrymu bod anifeiliaid yno. P'run ai stabl ar wahân oedd neu le i wyna, mae'r Beibl yn hollol eglur fod Iesu Grist, Mab Duw, wedi'i eni mewn lleoliad cyffredin, tlawd yn nhref Bethlehem.
- Gellir olrhain llinach Iesu yn ôl i'r Brenin Dafydd (o hanes Dafydd a Goliath).




**Yn y Beibl**

- Gelli ddarllen am hanes geni Iesu yn llyfr Mathew, o bennod 1 adnod 18 i bennod 2, adnod 12.
- Gelli ddarllen yr hanes hefyd yn llyfr Luc, pennod 2, adnod 1 i 20.



**Teimladau ac Emosiynau**

- Mae'r geni yn cael ei gyfeirio ato fel yr Ymgnawdoliad sy'n golygu 'yn y cnawd'
- Mae hanes geni, bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn ganolog i'r ffydd Gristnogol.
- Mae ffydd yn Iesu yn adfer y berthynas rhwng Duw a'r ddynoliaeth gafodd ei thorri yng Ngardd Eden gan Adda ac Efa.
- Mae Iesu yn rhan o'r Drindod: Duw y Tad, Duw y Mab a Duw yr Ysbryd Glân. Yn y Beibl darllenwn fod Iesu yno pan gafodd y byd ei greu.
- Roedd Iesu yn ddyn ac yn Dduw pan gafodd ei eni ac felly'n deall emosiynau fel tristwch, unigrwydd, ofn, cynnwrf, llawenydd a chariad.
- Mae digwyddiadau'r Nadolig a'r Pasg yn dangos cariad mawr Duw at ei fyd.



**Gweithgaredd gydag oedolyn**

- Rhowch y rhestr hon i'r plant: angel, brenin, seren, stabl, dathlu, llawenhau, babi, anrheg, aur, llety, cafn bwydo anifeiliaid, llawenhau, mab, myrr, Achubwr, thus, bugail, gwŷr doeth. Rhowch bêl feddal i'r plant a'u cael i daflu'r bêl i'w gilydd. Wrth ddal y bêl rhaid iddyn nhw roi'r gair mewn brawddeg sy'n ymwneud â Stori'r Geni.



**Myfyrio**

- Mae Cristnogion yn credu mai mab Duw yw Iesu, wedi dod i'r byd ar ffurf person dynol. Mae Cristnogion yn credu eu bod yn gallu cael perthynas bersonol efo Duw drwy Iesu.
- Wyt ti'n meddwl fod gwybod pam fod genedigaeth Iesu yn bwysig i Gristnogion yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd maen nhw'n dathlu'r Nadolig?